Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

# Astudiaethau Achos Creu Lleoedd Canol Trefi

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi gan Gomisiwn Dylunio Cymru ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau ychwanegol ar Gynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer canol trefi, yn enwedig mewn perthynas â'r Rhaglen Trawsnewid Trefi.

**Awst 2024**

Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

# Cwnnwys


Cyflwyniad 04

**Astudiaethau Achos**

Perllan Gymuned Wib 06

Ffyrdd o Weithio yn Sir y Fflint 12

Dyfodol Rhuthun 16

Canolfan Adfywio Cymunedol Haverhub 20

Adfywio Treforys 24

Adfywio Drwy Brosiectau Peilot 29

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn atodiad i'r Canllaw i Greu Lleoedd yng Nghanol Trefi sydd â'r nod o gefnogi'r rheini sy'n arwain cynlluniau a phrosiectau Creu Lleoedd yng nghanol trefi. Drwy ein hamser yn gweithio gyda gwahanol awdurdodau lleol ledled Cymru, rydym wedi gweld amrywiaeth o enghreifftiau o greu lleoedd ar waith ac mae'r ddogfen hon yn darparu un llwyfan ar gyfer rhannu rhywfaint o'r gwaith da sy'n cael ei wneud a fydd, gobeithio, yn annog, yn ysbrydoli ac yn cymell eraill sy'n gweithio yn y maes.

Mae'r astudiaethau achos yn canolbwyntio'n bennaf ar Awdurdodau Lleol a'u rôl wrth sbarduno a chefnogi newid. Mae gan awdurdodau lleol y dasg o gefnogi'r gwaith o adfywio canol trefi a mynediad at gyllid drwy Trawsnewid Trefi a chynlluniau eraill. Fodd bynnag, mae'r astudiaethau achos yn dangos mai galluogwyr yw eu rôl i raddau helaeth yn hytrach na phennu prosiectau o'r brig i lawr. Mae hyn yn helpu i dynnu sylw at y ffaith bod creu lleoedd yn ymwneud cymaint â ffordd o weithio â chreu unrhyw ddatblygiad neu welliant corfforol.

Dim ond sampl o waith sy'n cael ei wneud ledled Cymru yw'r astudiaethau achos hyn. Rydym wedi eu dewis am eu hamrywiaeth a'r gwahanol agweddau ar greu lleoedd y maent yn eu harddangos. Bydd llawer mwy o enghreifftiau presennol ac rydym yn gobeithio y bydd llawer mwy i ddod. Rydym yn bwriadu tynnu sylw at straeon eraill yn y dyfodol er mwyn parhau i hyrwyddo arferion gorau. Nid yw'r prosiectau hyn wedi cael eu dewis oherwydd eu bod yn berffaith, nid oes y fath beth, ac yn sicr ni ddylent fod yn rhan o'r broses o greu lleoedd. Ond yr hyn maen nhw'n ei ddangos yw parodrwydd ac ymrwymiad i **roi cynnig ar bethau**, i **ddechrau arni**, i **weithio mewn gwahanol ffyrdd** ac i **ddysgu**.

Ni ellir copïo astudiaethau achos.  Mae pob lle yn unigryw ac efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio mewn un lle yn addas ar gyfer lle arall, ond nid yw hynny'n golygu na allwn ddysgu oddi wrthynt. Rydym wedi tynnu sylw ym mhob astudiaeth achos at rai o'r pwyntiau dysgu allweddol o bob enghraifft yn ein barn ni, ac wedi darparu rhai cwestiynau i'ch helpu i feddwl am sut y gallech chi gynnwys rhai o agweddau cadarnhaol yr astudiaeth achos yn eich ffyrdd o weithio.

Gobeithio y bydd yr astudiaethau achos hyn yn eich helpu a'ch annog i barhau i brofi a rhoi cynnig ar syniadau, i fyfyrio ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, ac i feddwl am y ffordd orau i chi fod yn y sefyllfa orau i gefnogi a galluogi newid ar y cyd â'r cyfoeth o ysbryd cymunedol, uchelgais, balchder ac entrepreneuriaeth yng nghanol ein trefi.

# Astudiaethau Achos




# Perllan Gymuned Wib

Cyflwynwyd Perllan Gymuned Wib i brofi syniadau ar gyfer gosodiad parhaol ac i fod yn gatalydd ar gyfer gwella nifer o safleoedd a nodwyd drwy Gwm Aber. Nod y gosodiad gwib sy'n benodol i le ac yn y gymuned oedd mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag arwahanrwydd cymdeithasol, tlodi bwyd ac iechyd drwy weithgareddau meithrin, chwilio am fwyd, cynaeafu, casglu a chwarae.

## Cam 1

Mae **Islifau – Ar Ein Rhiniog** yn brosiect partneriaeth rhwng grŵp cymunedol Islifau – Celfyddydau yng Nghwm Aber, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac Addo. Cam cyntaf y prosiect oedd cynnal gwerthusiad safle ac ymgysylltu â'r gymuned i ddatblygu uwchgynllun ar gyfer Cwm Aber. Roedd yr uwchgynllun yn tynnu sylw at sut y gellid ail-ddychmygu mannau sy'n cael eu tanddefnyddio neu eu hanghofio yn y trefi yn y cwm fel mannau gwyrdd cymunedol, creadigol, ar gyfer tyfu, perllannau, chwarae, cysylltiad a llesiant, gan rymuso'r gymuned leol i gymryd perchnogaeth o'u mannau awyr agored.

LLun: Teuluoedd yn nigwyddiad Iansio Perllan Gymuned Wib.

## Cam 2

Roedd y cam nesaf yn nodi safle peilot ar gyfer defnydd dros dro, i'w ddylunio a'i gyd-greu gyda'r gymuned leol drwy ymgysylltu creadigol. Bwriad y safle peilot hwn oedd cynnal digwyddiadau, creu deialog gymunedol, a llywio prosiectau hirdymor yn y dyfodol. Cafodd tîm creadigol o benseiri eu cynnwys yn y prosiect i helpu i ddylunio a chyflwyno'r prosiect peilot gyda'r gymuned leol.

Cynhaliwyd dulliau ymgysylltu creadigol drwy gyd-greu a chyflwyno'r gosodiad gwib peilot, gan gynnwys sgyrsiau wedi'u targedu a gweithdai cyfranogol gyda grwpiau lleol o bobl ifanc. Er mwyn galluogi pobl ifanc i gysylltu â'u hamgylchedd naturiol wrth gymryd rhan mewn sgyrsiau anffurfiol am y prosiectau dros dro, cynhaliwyd gweithdai lle gallai pobl ifanc greu a gwasgaru eu bomiau hadau eu hunain. Roedd gweithdai eraill yn cynnwys paentio paledi wedi'u hailgylchu mewn lliwiau llachar i'w defnyddio yn y pen draw fel seddi yn y prosiectau dros dro, gan greu ymdeimlad o berchnogaeth dros y gofod cymunedol.

Roedd y Berllan Gasglu Gymunedol yn cynnwys tair prif elfen: canopi strwythurol i annog pobl i ymgynnull, seddi lliwgar wedi'u creu ar y cyd yn y gweithdai a grid o ddeuddeg coeden afalau. Bwriad y dyluniad oedd creu man cyhoeddus chwareus sy'n mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag arwahanrwydd cymdeithasol, tlodi bwyd ac iechyd a lles.

Roedd y digwyddiad lansio'n cynnwys gwasgu afalau i greu llawer iawn o sudd afal i roi cynnig arno ar y diwrnod, ochr yn ochr â rhannu gormodedd/ffeirio planhigion lle'r oedd modd rhannu a chyfnewid cynnyrch dros ben. Roedd y cynllun peilot ar waith am fis a chafodd ei ddefnyddio yn anffurfiol fel lleoliad thema ar gyfer menter farddoniaeth leol, Tatws Sion Cent, gan artistiaid lleol ar gyfer digwyddiad a hyd yn oed ar gyfer parti plant lleol.

## Cam 3

Ar sail yr hyn a ddysgwyd o'r cynllun peilot, ar ôl prosesu'r costau, datblygodd y tîm pensaernïol ddyluniadau cysyniadol ar gyfer yr ymyriad parhaol cyntaf. Roedd y gwersi a ddysgwyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at y briff a oedd yn gofyn bod y gofod newydd o ansawdd uchel, yn benodol i le, yn gadarn, yn ddeniadol ac yn briodol ar gyfer defnydd aml-genhedlaeth, yn hyblyg ac wedi'i orchuddio er mwyn diogelu rhag y tywydd.

Datblygodd y tîm dylunio gynnig ar gyfer ymyriadau parhaol ar un o'r safleoedd a nodwyd yn yr uwchgynllun o dan y prosiect mantell Casglu Senghennydd. Cafodd y prosiect ei ddylunio a'i gostio'n llawn i lywio ceisiadau am gyllid i'w gyflawni yng ngham 3.




Lluniad cysyniad o'r digwyddiad Casglu Gwib.

## Effaith

Ers hynny, mae'r uwchgynllun cychwynnol wedi cyfrannu at Gynllun Gwyrdd Cyngor Bwrdeistref Caerffili, sy'n ceisio creu rhwydwaith o fannau a mannau gwyrdd, sy'n dangos manteision ymgysylltu a meddwl yn greadigol i ddatblygu polisi.

Mae datblygu a chyflawni'r prosiect Casglu gyda'r gymuned wedi dangos gwerth ymgysylltu â'r gymuned greadigol a chymryd rhan mewn diwylliant mewn mannau awyr agored. Roedd yr ymgysylltu'n creu ymdeimlad o berchnogaeth gymunedol a oedd yn galluogi'r prosiect i fod yn llwyddiant.

Roedd profi'r safle peilot yng ngham 2 yn creu hyder yn y brîff ar gyfer prosiect mwy parhaol, gan ddatblygu ymddiriedaeth a pherthynas rhwng tîm y prosiect a'r gymuned leol.

## Y Camau Nesaf

- Ceisio cyllid i gyflawni'r gosodiad parhaol cyntaf.
- Cynllunio a hwyluso rhaglen barhaus o ymgysylltu â'r gymuned greadigol.
- Ymchwilio ymhellach i botensial safleoedd eraill a nodir ym map uwchgynllun Cwm Aber.
- Archwilio cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid prosiect ar y safleoedd eraill.

## Y Gwersi a Ddysgwyd

— Gall cynnwys pobl ifanc, a'r perthnasoedd a gaiff eu creu yn y sesiynau ymgysylltu greu ymdeimlad o berchnogaeth, sy'n cyfyngu ar faint o fandaliaeth neu ymddygiad gwrthgymdeithasol a allai fod wedi digwydd fel arall.

— Does dim rhaid i ymyriadau fod yn ddrud er mwyn creu effaith yn y gofod. Y gyllideb ar gyfer y Berllan Wib oedd £xxx.

— Gall prosiectau peilot ychwanegu gwerth at fuddsoddiad hirdymor yn y dyfodol drwy brofi syniadau a galluogi adborth gan y gymuned.

— Gellir defnyddio timau dylunio i ail-ddychmygu ymgysylltu â'r gymuned fel rhan o'r broses ddylunio.

## Beth gallech chi ei wneud?

— Ymgysylltu'n greadigol â'r gymuned gan gynnwys grwpiau lleol, er mwyn deall yn llawn beth mae eich cymuned ei eisiau a'i gyflawni gyda'u cyfraniad drwy gydol y broses.

— Treialu syniadau ar sail tymor byr i gael adborth gwirioneddol gan y gymuned i lywio buddsoddiad tymor hwy.



Poster i ledaenu'r neges am y digwyddiad lansio.


Y Berllan Gymunedol yn cael ei defnyddio.



Paledi paentio cymunedol i'w defnyddio yn y Berllan Gymunedol.



Gwasgu afalau yn y digwyddiad.

| Gwybodaeth am y prosiect | |
|---|---|
| Cleient | Mae **ISLIFAU – Ar Ein Rhiniog** yn brosiect partneriaeth rhwng grŵp cymuned Islifau – Celfyddydau yng Nghwm Aber, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac Addo. |
| Tîm - Cam 2 a 3 | Amanda Spence Architects ac Analog Architecture. |
| Cyllid | Cafodd y prosiect ei ariannu gan grant Cysylltu a Ffynnu Cyngor Celfyddydau Cymru, gyda chyllid ychwanegol a chymorth ymarferol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Rhwydwaith Lles Integredig Gwent a Chyngor Cymuned Cwm Aber. |
| Cost | **Cam 3 Cyflwyno Casgliad Senghennydd:** amcangyfrifir ei fod yn £390k. |
| Amser | **Cam 1** Wedi'i gwblhau ym mis Hydref 2021<br>**Cam 2** Ar agor am 1 mis ym mis Medi-Hydref 2023 |

Darparwyd yr wybodaeth gan Amanda Spence, Amanda Spence Architects.




# Ffyrdd o Weithio yn Sir y Fflint

Tua'r un pryd â lansio Cynlluniau Creu Lleoedd Llywodraeth Cymru, cynhaliodd Rheolwr Adfywio Cyngor Sir y Fflint adolygiad o drefn lywodraethu bresennol a chyflawni prosiectau creu lleoedd yn y Cyngor. Yna cyflwynwyd cynnig i uwch arweinwyr i greu Grŵp Lleoedd newydd, sydd bellach yn cyfarfod bob chwarter i hwyluso sgyrsiau strategol ymysg uwch arweinwyr sy'n dylanwadu ar leoedd. Mae'r timau sy'n cymryd rhan yn cynnwys Adfywio, y Gwasanaethau Stryd, Cynllunio, Busnes a Sgiliau a Thrafnidiaeth.

Gan fod hyn yn newid y ffordd yr oedd pethau'n arfer cael eu gwneud, roedd cyfnod o addasu. Fodd bynnag, roedd newid graddol mewn barn wrth i fanteision ffordd fwy cydweithredol o weithio ddod i'r amlwg. Dechreuodd y tîm gydlynu ceisiadau am gyllid a datblygu dulliau o gyflwyno ar y cyd a oedd yn sicrhau gwell gwerth am arian, drwy gysylltu adnoddau ariannol a chreu gweithgorau bach ar draws timau ar wahanol brosiectau.

Llun: Digwyddiad yr Ymgynghoriad ar Greu Lleoedd yng nghanol tref y Fflint




Ffyrdd o Weithio Cyngor Sir y Fflint

Cafodd Cynlluniau Gweithredu Bach eu creu gan y Grŵp Lleoedd mewn tair tref allweddol – Bwcle, Treffynnon a Shotton – i nodi gweithgareddau allweddol a lle gellid cysylltu'r rhain yn well ar draws timau. Roedd y broses hon hefyd yn cynnwys nodi seilos allanol a oedd yn bodoli, gan fod datgloi'r rhain yn angenrheidiol i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol.

Mae'r Grŵp Lleoedd yn gweithio'n agos gyda'r Grŵp Pobl, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allanol perthnasol fel yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, Clinigol, Pobl Hŷn, Plant a Phobl Ifanc, y Ffederasiwn Busnesau Bach a'r Grŵp Amrywiaeth. Mae'r cydweithio hwn ar draws y Grwpiau Pobl a Lleoedd yn cysylltu gwasanaethau'r cyngor ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau.

Datblygwyd y rhan fwyaf o waith y Cynllun Gweithredu yn fewnol, wedi'i gefnogi gan arbenigedd allanol ar ddylunio trefol a thynnu'r dogfennau at ei gilydd i ffurfio Cynlluniau Creu Lleoedd. Roedd hyn yn sicrhau bod syniadau wedi cael eu profi gyda'r gymuned drwy ymgysylltu dan arweiniad timau o swyddogion a oedd yn adnabod yr ardaloedd yn dda. Roedd y gwaith ymgysylltu'n cynnwys adborth digidol drwy gyfryngau cymdeithasol wedi'i dargedu sy'n gysylltiedig â'r llwyfan Give My View. Mae brand Creu Lleoedd Sir y Fflint wedi cael ei ddatblygu sy'n fwriadol ddisglair, yn lliwgar ac yn ddifyr, er mwyn rhoi ymdeimlad o hunaniaeth i'r holl waith creu lleoedd sy'n digwydd ar draws y Sir ac ennyn diddordeb.

Mae'r Cynlluniau Creu Lleoedd yn nodi cyfleoedd sy'n seiliedig ar adborth gan y cyhoedd, ystadegau cymunedol ac asesiadau o'r lleoedd, gan gynnwys gwerthusiadau seilwaith masnachol, economaidd, cymdeithasol a gwyrdd. Bwriad y cynlluniau yw darparu fframwaith cyfleoedd, yn hytrach na phrosiectau penodol, sy'n cael eu trafod gan y grŵp cyflawni lleol bob blwyddyn i bennu'r camau gweithredu a'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## Y Gwersi a Ddysgwyd

— Lle nad yw dull llywodraethu a phrosiectau wedi bod yn gweithio, mae'n werthfawr stopio a dysgu o'r dull hwnnw. Gellir defnyddio'r dull dysgu hwn i lywio strwythur newydd a allai fod yn fwy effeithiol, fel y mae'r Grŵp Lleoedd newydd wedi dangos.

— Roedd gweithgareddau adborth digidol a chyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu wedi creu llawer mwy o ymgysylltu na dulliau blaenorol o ymgynghori â'r cyhoedd.

## Effaith

Mae effeithlonrwydd mewn dulliau cydweithredol o gyflawni prosiectau yn dod yn amlwg drwy geisiadau llwyddiannus am gyllid, mwy o werth am arian a dulliau cyfannol o nodi a chyflawni prosiectau.

Bwriad y dull 'fframwaith cyfleoedd' ar gyfer Cynlluniau Creu Lleoedd yw caniatáu i'r cynllun fod yn hyblyg ac yn ddeinamig i addasu i newidiadau lleol a chyfleoedd cyllido neu fuddsoddi. Mae'r Cyngor Sir yn dechrau gweld y buddsoddiadau strategol cyntaf yn Shotton, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â themâu'r cynllun creu lleoedd a nodwyd.

## Y Camau Nesaf

— Mae gwefan Creu Lleoedd yn Sir y Fflint yn cael ei datblygu i greu lle unigryw, gyda phartneriaid allanol, lle gellir rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau ochr yn ochr â dathliadau llwyddiant a sgyrsiau am y themâu. Bwriad hyn yw bod yn lliwgar ac yn ddifyr, gan ddefnyddio brand Creu Lleoedd Sir y Fflint i greu lle penodol ar gyfer yr holl waith sy'n cael ei wneud.

— Bydd prosiectau'n cael eu dewis, eu rhaglennu a'u cyflwyno bob blwyddyn mewn ymateb i'r cyd-destun presennol, cyfleoedd cyllido a buddsoddi.

creu lleoedd | place making
SIRYFFLINT | FLINTSHIRE

Logo a hunaniaeth brand Creu Lleoedd Sir y Fflint, sy'n cael eu defnyddio i greu ymdeimlad cofiadwy o'r holl waith a chynlluniau sy'n cael eu gwneud gan y tîm ac i ennyn diddordeb y cyhoedd yn y prosiectau.

### Beth gallech chi ei wneud?

- Gall creu dull hyblyg o lunio cynlluniau drwy nodi cyfleoedd allweddol, yn hytrach na phrosiectau statig, fod yn briodol i ganiatáu i'ch prosiectau creu lleoedd ymateb i newidiadau ac ymateb i gyfleoedd cyllido newydd.
- Ystyriwch sut mae eich strwythurau llywodraethu a chyflawni prosiectau presennol yn gweithio a p'un ai a allai ailstrwythuro'r rhain helpu i gyflawni prosiectau'n fwy effeithlon. A oes seilos o fewn y sefydliadau mewnol ac allanol cysylltiedig? A ellid cydlynu'r rhain yn well i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni ar y cyd?
- Meddyliwch am eich dull o ymgysylltu â'r gymuned a rhoi adborth, er mwyn adolygu a oes digon o fewnbwn cymunedol i lunio cynlluniau ac a yw'r dulliau rydych chi'n eu defnyddio yn briodol. A allai gweithgareddau digidol gynyddu faint o ymgysylltu sy'n digwydd yn eich cymuned? A yw'r gymuned yn cyfrannu at y broses ddylunio yn ddigon cynnar?

| **Gwybodaeth am y prosiect** | |
|---|---|
| Cleient | Cyngor Sir y Fflint. |
| Tîm | Y Grŵp Lleoedd, gyda rhanddeiliaid allanol. |
| Partneriaid | Y Grŵp Pobl. |
| Cyllid | Cyllid Cynlluniau Creu Lleoedd Llywodraeth Cymru. |

Darparwyd yr wybodaeth gan Karen Whitney-Lang, Cyngor Sir y Fflint.



# Dyfodol Rhuthun

Dyfodol Rhuthun yw menter cynllun bro Rhuthun, prosiect o greu, ymgysylltu ac adfywio lleoedd dan arweiniad y gymuned ers ei sefydlu yn 2009. Y nod gwreiddiol oedd cynnwys y gymuned wrth ystyried dyfodol y dref farchnad hanesyddol, drwy welliannau graddol tuag at newid cydlynol sy'n atgyfnerthu hunaniaeth y dref. Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae wedi datblygu i fod yn brosiect cynhwysfawr i gynllunio lleoedd drwy ymgysylltu'n barhaus.


Arwyddair Dyfodol Rhuthun yw Newid Bach – Gwahaniaeth Mawr, sy'n dangos y gall prosiectau llai rymuso trigolion a meithrin gallu lleol i gyflawni prosiectau o wahanol raddfeydd a mathau drwy waith adfywio a arweinir gan y gymuned. Yn hytrach na darparu cynllun statig ar gyfer y lle, mae'r sgwrs a'r prosiectau wedi datblygu dros amser gyda sawl iteriad o'r cynlluniau lle ar wahanol themâu. Er mai'r man cychwyn yma oedd cynllun lle, gellir defnyddio'r un dull ar gyfer cynlluniau creu lleoedd.



Llun: Syniadau cynllunio ar gyfer y lle.



Ymgysylltu â'r gymuned yn Ystafell Drefol Dyfodol Rhuthun.



Dylunio'r cysyniad ar gyfer Canol Tref Rhuthun.

Ar ôl parhau i ymgysylltu â'r gymuned a chyd-ddylunio drwy'r syniad o Ystafell Drefol, mae momentwm wedi datblygu drwy gyflawni prosiectau fel; mynedfa fwy diogel i barc Cae Ddol, Llwybr Celf Rhuthun i ddenu ymwelwyr a gwaith mapio/brandio. Mae'r prosiectau bach hyn yn cyfrannu at y weledigaeth sy'n cefnogi cyfleoedd datblygu mwy.

Mae Dyfodol Rhuthun yn cefnogi cydweithredu a meddwl cyfannol rhwng y gymuned a rhanddeiliaid lleol, sydd wedi dylanwadu ac wedi llywio llawer o geisiadau cyllido llwyddiannus, mwy ar gyfer prosiectau i'w cyflawni yn y dref sy'n gweithio tuag at weledigaeth gyffredinol y gymuned ar gyfer Rhuthun.

## Y Gwersi a Ddysgwyd

- Mae cydweithio parhaus ac ystyrlon rhwng cymunedau a rhanddeiliaid yn allweddol i ddatgloi prosiectau ar wahanol raddfeydd i adfywio canol tref yn raddol.
- Gall prosiectau haenu sy'n cael eu darparu gan wahanol randdeiliaid cymunedol greu lle cydlynol i bobl leol ac ymwelwyr, pan fyddant yn cael eu datblygu ar y cyd dros amser. Nid oes angen i un mudiad ysgwyddo'r cyfrifoldeb llawn dros adfywio.
- Gall prosiectau bach, cost isel ysgogi buddsoddiad mewn prosiectau mwy i drawsnewid lle.



Syniadau ar gyfer dyfodol Rhuthun.

## Effaith

Mae 15 mlynedd o ymgysylltu parhaus â'r gymuned a newid graddol wedi arwain at ddatblygu a chyflawni llawer o brosiectau unigol sy'n cyfrannu at wella'r lle yn gyffredinol ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr.

## Y Camau Nesaf

— Bydd cais llwyddiannus am gyllid Ffyniant Bro, dan arweiniad yr Awdurdod Lleol, yn trawsnewid Sgwâr y Farchnad yn lle i bobl a digwyddiadau, gan gynnwys adfer treftadaeth a chysylltiadau gwyrdd i wella cyfleusterau parcio.

— Mae gweithredwyr Neuadd y Farchnad, Marchnadoedd Artisan Rhuthun, wedi sicrhau £1m i uwchraddio Neuadd y Dref fel canolfan gymunedol aml-genhedlaeth.

— Cyn bo hir, bydd Dyfodol Rhuthun yn dechrau gweithio ar ei drydydd adendwm sy'n ymwneud â themâu diogelu'r Gymraeg a'i diwylliant, byw'n dda yng nghanol y dref a chynaliadwyedd cymdeithasol a chydnerthedd cymunedol.

### Beth gallech chi ei wneud?

— Oes gennych chi gyfle i gefnogi Ystafell Drefol yn eich tref sy'n gallu hwyluso sgyrsiau a syniadau ynghylch yr uchelgais ar gyfer eich lle yn y dyfodol?

— A oes cyfleoedd i chi gyflawni prosiectau llai gyda'r gymuned neu randdeiliaid a all ysgogi trafodaeth am ddyfodol yr ardal?

| Gwybodaeth am y prosiect | |
|---|---|
| Cleient | Cyngor Tref Rhuthun. |
| Tîm | Uned Ymchwil Dylunio Cymru ac Ysgol Pensaernïaeth Cymru. |
| Partneriaid | Cyngor Sir Ddinbych, rhanddeiliaid lleol. |
| Cyllid | Cais Cronfa Ffyniant Bro gwerth £11m DCC ar gyfer 10 prosiect Cynigion gwerth £1m gan Farchnadoedd Artisan Rhuthun ar gyfer adfywio Neuadd y Dref. |
| Amser | 15 mlynedd. |
| Dolenni | https://www.rhuthun.com/ |

Darparwyd yr wybodaeth gan Cllr Gavin Harris, Cyngor Tref Ruthun.




# Canolfan Adfywio Cymunedol Haverhub

Mae Haverhub yn gwmni diddordeb cymunedol ar lawr gwlad a ffurfiwyd yn 2017 drwy feddiannu ac adfywio pencadlys hen swyddfa bost rhestredig Gradd 2 yng nghanol tref Hwlffordd. Dros amser, mae'r rhan fwyaf o'r safle wedi cael ei uwchraddio drwy nifer o ffynonellau cyllid cyfalaf, gyda chefnogaeth rhwydwaith helaeth o wirfoddolwyr o 'Haverhelpers'.

Mae'r Haverhub yn cwrdd â galw lleol clir, gan ei fod yn cael ei archebu 6-7 diwrnod a noson yr wythnos a'i fod yn cael ei ddefnyddio fel caffi, man cydweithio a digwyddiadau, o briodasau, i wasanaethau therapi i gynadleddau. Caiff ei redeg o ddydd i ddydd gan dîm o staff cyflogedig a gwirfoddolwyr, a gefnogir gan gymysgedd o gyllid grant.

Llun: Digwyddiadau yn Haverhub.

Daeth adeilad swyddfa'r post i berchnogaeth gymunedol yn ddiweddar gan ddefnyddio cyllid grant ac mae Haverhub hefyd wedi prynu warws adfeiliedig y tu ôl iddo ar ochr y cei. Bydd yr adeilad ychwanegol hwn yn darparu mynedfa i'r Hwb ar lan yr afon ynghyd â mannau ychwanegol ar gyfer cyfarfodydd a gweithgareddau. Mae dyluniad cysyniadol ar gyfer y warws ychwanegol hwn yn cael ei ddatblygu a bydd y gymuned yn cymryd rhan yn y broses ddylunio.

## Y Gwersi a Ddysgwyd

— Mae angen gweledigaeth glir a grym gyrru i gynnal momentwm a sicrhau parhad.

— Gall dibynnu ar gyllidwyr allanol achosi oedi i'r prosiect a phroblemau llif arian ar adegau penodol. Mae'n anodd lliniaru hyn, ond mae paratoi ar gyfer cynllun B ac C yn helpu i achub y blaen ar unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg.

— Pobl yw'r ased pwysicaf ac mae pheidio â chael digon o bobl yn risg, cadwch lygad ar ddiogelu amser tîm a gwirfoddolwyr er mwyn osgoi gorweithio.

— Pan fo'n bosibl, datblygu perthynas â'r timau perthnasol yn yr awdurdod lleol yn gynnar oherwydd efallai y bydd cyfleoedd i weithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau cyffredin.

## Effaith

Mae Haverhub wedi creu canolbwynt canol tref ar gyfer adfywio creadigol a diwylliannol mewn adeilad rhestredig ar y stryd fawr a fyddai'n wag fel arall. Mae effaith caseg eira wedi cael ei chreu o amgylch Haverhub lle mae siopau annibynnol bach wedi ymddangos o amgylch Stryd y Cei.

Mae'r ganolfan wedi creu gofod cymunedol newydd, niwtral yn y dref sy'n gallu hwyluso sgyrsiau adeiladol a chydweithredol ynghylch dyfodol yr ardal. Mae pobl leol yn teimlo'n rhan ohoni ac yn cefnogi'r tîm sy'n ymwneud â'i rhedeg, gan gydnabod gwerth Haverhub i'r dref.

Mae tîm Haverhub yn ymwybodol o straeon twf personol o gymryd rhan mewn gweithgareddau yn Haverhub, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar yr un pryd â bod yn anodd ei mesur. Bydd cofnodi'r straeon hyn yn dod yn rhan o gam nesaf datblygiad sefydliadol.

## Y Camau Nesaf

— Mae tîm Haverhub wedi cael ei adeiladu i gynnwys sawl rôl graidd â thâl, gan gynnwys rheoli lleoliad, cydlynydd gwirfoddolwyr a swyddog cymorth grant. Ynghyd â thîm newydd o Gyfarwyddwyr, mae'r sefydliad yn cael ei roi ar waith i gefnogi cynaliadwyedd y Ganolfan yn y dyfodol.

— Mae'r gwaith o ddylunio, cynllunio a chodi arian ar gyfer cam nesaf a therfynol y gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni'r gwelliannau i'r iard a'r warysau ger y cei.

“Mae Haverhub wedi’i greu o bobl yn ogystal â brics a morter, gyda phositifrwydd heintus!  Rwy’n gweld dyfodol disglair iawn i bawb sy’n ymwneud ag ymuno a datblygu’r weledigaeth. Mae Adfywio yn golygu mai POBL yw ei adnodd mwyaf gwerthfawr”.

Gitti Coats – Sylfaenydd a chyfarwyddwr y Prosiect, Haverhub

### Beth gallech chi ei wneud?


— Os ydych chi’n rhan o awdurdod lleol, mae’n bwysig canfod cyfleoedd yn y gymuned i gefnogi’r gwaith o gyflawni prosiectau ar lawr gwlad lle gallent hefyd eich helpu i gyflawni eich nodau a’ch amcanion stratego.

— Fel rhywun lleol, os ydych chi’n sylwi bod rhywbeth ar goll yn eich ardal, yna mae’n debyg bod pobl eraill yn y gymuned yn teimlo’r un fath. Gall adeiladu sylfaen o wirfoddolwyr eich helpu i wireddu’r weledigaeth hon fel tîm, yn hytrach nag fel unigolyn.

— Gall syniadau a phrosiectau ar lawr gwlad gael yr un effaith, os nad mwy, ar le na phrosiectau ffurfiol dan arweiniad dinesig. Gall cefnogaeth leol eich helpu i gyflawni nodau prosiect a’i gynnal yn y tymor hwy.




Pencadlys Swyddfa’r Post yn 2014, cyn ailddatblygu.




Argraff artist o gam nesaf y gwaith, gan gysylltu â'r afon

| Gwybodaeth am y prosiect | |
|---|---|
| Arweinydd y Prosiect | Haverhub – sylfaenydd/cyfarwyddwr prosiect Gitti Goats.<br>Jerry Evans, Prynwr cymunedol cychwynnol y safle a chyd-gyfarwyddwr y prosiect 2017 – 2024 bellach wedi ymddeol. |
| Tîm | Mae Haverhub yn cydweithio'n anffurfiol ar draws y trydydd sector, y diwydiannau creadigol, busnesau bach a chanolig a Grwpiau Cymorth Cymunedol.<br>Mae'r grŵp rhanddeiliaid lleol yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth leol, gerddi cymunedol, Cyngor Tref, PAVS, y Gymuned Fwslimaidd leol, Coleg Sir Benfro, busnesau lleol a'r Awdurdod Lleol. |
| Cyllid | Detholiad o grantiau ers 2015/16 gwerth £1.8 miliwn, cyfalaf yn bennaf gyda rhywfaint o refeniw.<br>Mae grantiau wedi cael eu hariannu'n gyfatebol gan grantiau eraill, ond mae cyfraniad gwirfoddolwyr wedi bod yn hollbwysig ac yn arwyddocaol. |
| Cost | Gwerth ased oddeutu £750k<br>Cyfalaf: £250k<br>Staffio drwy incwm a enillwyd a grantiau refeniw. |
| Amser Cynllunio | Ffurfiwyd Haverhub yn 2017 ac mae wedi rhedeg yn llawn amser ers 2021 pan gwblhawyd y gwaith adnewyddu ar swyddfa'r post. |
| Dolenni | www.haverhub.org.uk<br>https://www.facebook.com/haverhubcic |

Darparwyd yr wybodaeth gan Gitti Coats, Haverhub CIC.



# Adfywio Treforys

Cafodd Treforys yn Abertawe ei nodi fel ardal darged ar gyfer rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar y stryd fawr leol, Woodfield Street. Roedd ymgysylltu â'r gymuned ar ddechrau'r rhaglen yn dangos y brwdfrydedd ymysg y masnachwyr lleol i ddathlu treftadaeth y lle i ddenu ymwelwyr, gyda chefnogaeth ailddatblygu safle Gwaith Copr Hafod Morfa gerllaw.

Sefydlwyd Grŵp Partneriaeth Adfywio Treforys gan Gyngor Abertawe a'r Grŵp Tai Arfordirol i ganfod materion allweddol, sicrhau cyllid, gweithio'n fwy effeithlon, ymgysylltu â'r gymuned, hyrwyddo'r prosiect a chanfod arferion gorau. Datblygwyd y weledigaeth ar gyfer `tref dreftadaeth ffyniannus' gyda'r gweithgor, ynghyd â chynllun gweithredu lleol gyda blaenoriaethau fel; datblygu treftadaeth a phroffil, cefnogi busnesau, datblygu cymunedau a darparu seilwaith lleoedd.



Llun: Diwrnod Oes Fictoria yn Nhreforys.




Swyddfa'r Post Treforys, gyda'r lloriau uchaf wedi'u haddasu ar gyfer tai a tho gwyrdd.
Ategir gan y prosiect gwyrddu yn y maes cyhoeddus.

Mae ymgysylltu â'r gymuned wedi bod yn elfen bwysig drwyddi draw, gyda phrosiectau cynnar allweddol sy'n cael eu hariannu gan grantiau yn magu hyder a chefnogaeth gan y gymuned leol fel arwydd o ddechrau'r rhaglen. Mae'r gweithgareddau ymgysylltu hyn wedi cynnwys sesiynau galw heibio, sefydlu Grŵp Cymunedol, gweithio gyda chynghorwyr ac aelodau etholedig lleol, digwyddiadau treftadaeth ac ymchwil academaidd gyda'r gymuned a masnachwyr.

## Y Gwersi a Ddysgwyd

- Mae'n anodd cael gafael ar gyllid refeniw i gefnogi ac ategu'r cyllid cyfalaf a dylid cynllunio ar gyfer yr her hon bob amser a rhoi gwybod i gyrff cyllido amdani.
- Ni fydd y gymuned yn dod yn rhan o'r fenter dros nos. Bydd cyflawni prosiectau mewn modd diriaethol dros amser yn meithrin yr hyder sydd ei angen i gynnal cefnogaeth gymunedol a chymryd rhan mewn gweithgareddau adfywio.
- Gall nodi a chysylltu â landlordiaid sy'n absennol am eiddo gwag fod yn heriol ac felly efallai nad yw'r eiddo hyn yn cael blaenoriaeth ar gyfer cyflawni'r prosiect.
- Mae prosiectau Unedau Gwag yn cymryd amser ac amynedd. Rhaid iddynt gael eu cefnogi gan adnoddau Swyddogion i annog a chefnogi ymgeiswyr am grantiau drwy'r broses gyflawni.
- Mae adnoddau prosiect pwrpasol yn allweddol i gynnal momentwm a chadw `esgidiau ar lawr gwlad'.
- Mae angen i raglenni a chynlluniau fod yn hirdymor ac yn hyblyg er mwyn addasu i amgylchiadau sy'n newid neu gyfleoedd newyd.

## Effaith

Mae'r rhaglen wedi gweithio'n galed i gyflawni nifer o brosiectau, gan gynnwys: datblygiad preswyl/masnachol cymysg yn Eglwys Sant Ioan, cynlluniau peilot seilwaith gwyrdd, gwelliannau i flaen siopau, gwelliannau i ddiogelwch y cyhoedd, gwyrddu strydoedd, llwybrau cerdded treftadaeth, prosiect cadernid Eglwysig Tabernacl, Gorchymyn Diogelu Gofod Cyhoeddus, ymgyrch Siop Leol Treforys, ymchwil economi sylfaenol gyda Phrifysgol Manceinion a'r Diwrnod Fictoraidd newydd i ddathlu treftadaeth a denu ymwelwyr.

Mae'r gymuned a busnesau lleol wedi elwa o gyflawni'r rhaglen ar draws sefydliadau, gydag adnoddau'n cael eu rhannu'n fwy effeithlon.

Ers hynny, mae'r prosiectau seilwaith gwyrdd a phrosiectau peilot blaen siopau wedi cyfrannu at grant Creu Lleoedd newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen Trawsnewid Trefi fwy diweddar.

## Y Camau Nesaf

- Bydd y rhaglen adfywio yn parhau gyda grwpiau a rhwydweithiau partneriaeth a chymunedol yn parhau yn eu lle.
- Mae prosiectau ailddatblygu uchel eu proffil bron â chael eu cwblhau neu'n dod i'r safle, er mwyn dangos mwy o hyder yn y rhaglen.
- Mae hygyrchedd yn thema allweddol i fynd i'r afael â hi yn y rhaglen a'i chryfhau drwy gyflawni prosiectau yn y dyfodol.

## Beth gallech chi ei wneud?

— Gyda phwy allech chi fod yn bartner yn y gymuned leol sydd â nodau ac uchelgeisiau tebyg ar gyfer y lle? Gallai rhannu syniadau ac adnoddau wneud y prosiect yn gyflymach ac yn rhatach i'w gyflawni.

— Cael gafael ar gyllid refeniw i ategu prosiectau cyfalaf drwy ddigwyddiadau, animeiddiadau ac 'atebion cyflym' i fagu hyder.

— Os ydych chi'n gorff cyllido, ystyriwch sut gallwch chi ddarparu potiau cyllid refeniw bach i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau ac ymgysylltu â'r gymuned tuag at fuddsoddiad cyfalaf mwy.

— Allwch chi neilltuo adnoddau amser penodol i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gefnogi a'i gynnal dros amser? Sut gall tîm y prosiect feithrin cysylltiadau tymor hir â'r gymuned i gefnogi'r gwaith o gyflawni hyn.

> "dull newydd o greu lleoedd yn Nhreforys, gan ddod â grŵp amrywiol o bartneriaid at ei gilydd i ddarparu atebion, a dod o hyd i ffyrdd arloesol o ddefnyddio cyllid."
>
> Debbie Green, Prif Weithredwr Grŵp Tai Arfordirol



Digwyddiad goleuadau Nadolig yn y dref.




Gwelliannau i'r siop yn 3 Woodfield Street, a ariennir gan grant Creu Lleoedd Llywodraeth Cymru.

| Gwybodaeth am y prosiect | |
|---|---|
| Arweinydd y prosiect | Cyngor Abertawe a'r Grŵp Tai Arfordirol. |
| Partneriaid | Cynrychiolwyr adfywio economaidd a datblygu cymunedol Cyngor Abertawe, 5 aelod o ward cyngor lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Cynrychiolwyr cymunedol e.e. Cydlynydd Ardal Leol, yr Heddlu, Tîm Adfywio Llywodraeth Cymru, Grwpiau Cyfeillion Allweddol Cwm Tawe Isaf (Parc Treforys, Gwaith Copr Hafod Morfa, Gwaith Copr White Rock). |
| Cyllid | Mae'r rhaglen yn cynnwys cymysgedd o brosiectau cyfalaf/refeniw mawr a bach. |
| Cost | Cefnogir y rhaglen gan gymysgedd o ffynonellau cyllido, fel Benthyciadau Canol Trefi, cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd, EnrAW, grantiau Gwella Busnes, refeniw Trawsnewid Trefi., Cronfa Rhannu Ffyniant y DU, Arian i Bawb, Trefi CLYFAR Llywodraeth Cymru, Cyfleusterau Cymunedol a chymorth ymarferol gan y Grŵp Partneriaeth.<br><br>Sicrhawyd dros £3.5m hefyd drwy gymysgedd o ffynonellau i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor Capel Tabernacl. |
| Amser | 2018 - parhaus. |
| Dolenni | https://www.abertawe.gov.uk/AdfywioTreforys |

Darparwyd yr wybodaeth gan Paul Relf, Cyngor Abertawe.



# Adfywio Drwy Brosiectau Peilot

Mae’r Tîm Adfywio yng Nghyngor Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf yn arddel agwedd greadigol tuag at gyflwyno prosiectau creu lleoedd sy’n cael eu hariannu’n allanol gan grantiau. Gan fod y tîm yn un amlddisgyblaethol, gan gynnwys cynllunio, dylunio trefol, pensaernïaeth, diwylliant a threftadaeth, mae’n mabwysiadu dull cyfannol o ymdrin â phrosiectau ac yn gwreiddio ei hun yn y cymunedau mae’n eu gwasanaethu, o greu prosiectau hyd at eu cyflawni.

### Adnoddau

Drwy ymgorffori costau ar gyfer amser swyddogion mewn ceisiadau am gyllid, gall yr awdurdod lleol feithrin gallu arbenigol yn fewnol i leihau’r ddibyniaeth ar ymgynghorwyr allanol. Er bod gwerth mewn defnyddio ymgynghorwyr allanol ar gyfer cyngor penodol ac arbenigol iawn, mae’n fwy cost-effeithiol defnyddio cyllid grant i dalu am amser swyddogion a recriwtio gweithwyr proffesiynol perthnasol i reoli’r prosiectau.

Llun: Mae rhaglenni diwylliannol yn cefnogi adfywio ardaloedd drwy ddigwyddiadau cymunedol uniongyrchol sy’n ategu ac yn profi syniadau ar gyfer newidiadau ffisegol i le.



Addurno stryd dros dro gyda 'Celf ar y Stryd' i greu ymdeimlad o le ac ymgysylltiad mewn mannau cyhoeddus, er mwyn creu hunaniaeth ar gyfer y lle.

Gall y tîm amlddisgyblaethol gryfhau'r prosiectau drwy edrych arnynt yn gyfannol ar draws gwahanol arbenigeddau. Cynhelir adolygiadau dylunio mewnol, er enghraifft, i ddatblygu darlun cynhwysfawr o brosiectau creu lleoedd, o ddyluniad technegol tir cyhoeddus yr holl ffordd i ddatblygiad diwylliannol a chelfyddydol.

Mantais ychwanegol meithrin gallu mewnol yw y gall y swyddogion rannu eu sgiliau a'u gwybodaeth gyda thimau ac adrannau mewnol eraill, sy'n ymestyn cyrhaeddiad a gwerth cyllid grant ar draws yr awdurdod lleol. Er enghraifft, efallai y bydd dylunydd trefol yn y tîm yn gallu ymuno â gweithgor o dîm arall i roi cyngor anffurfiol ar ansawdd dylunio a chreu lleoedd, heb fod angen i'r tîm ddod o hyd i gyllid i dalu am amser ymgynghorydd.

## Cyd-ddylunio cymunedol

Mae gwreiddio timau cyflawni prosiectau yn y gymuned yn creu ymdeimlad o berchnogaeth ac atebolrwydd lleol dros brosiectau, sy'n aml yn brin pan fydd timau ymgynghori allanol yn cael eu hanfon i mewn ac allan i ymgysylltu. Pan fo'n bosibl, bydd y swyddog sy'n rheoli'r gwaith dylunio a darparu yn cael ei leoli'n lleol yn y lle, a allai fod mewn man dros dro, gyda'r cyngor tref lleol neu mewn swyddfa loeren yn yr awdurdod lleol, i weithio'n agos gyda phobl leol i gyd-ddylunio a chyflawni'r prosiect.

## Prosiectau peilot

Defnyddir prosiectau peilot i brofi syniadau gyda photiau cyllido llai, i lywio'r gwaith o ddylunio strategaethau tymor hwy a phrosiectau cyfalaf. Drwy brofi prosiectau cost isel ar lawr gwlad, mae'r risg yn cael ei lleihau a gellir ystyried adborth gan y gymuned yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau gwerth am arian o gyllid grant allanol drwy ddefnyddio symiau llai o gyllid i ddysgu o brosiectau tymor hir gyda chostau uwch, a'u llywio, gan gryfhau'r achos busnes. Mae'r prosiectau peilot hyn wedi cynnwys: animeiddio ac ailddefnyddio unedau gwag fel mannau dros dro, darparu parciau bach i ail-ddychmygu priffyrdd fel mannau cyhoeddus, a rhaglenni diwylliannol i gefnogi artistiaid a grwpiau lleol i ddatblygu prosiectau creu lleoedd.

## Y Gwersi a Ddysgwyd

— Mae ymgysylltu a thrafod yn gynnar â chyllidwyr grant yn allweddol i ddangos gwerth meithrin gallu mewnol.

— Mae'n haws cael cefnogaeth ar gyfer prosiectau peilot, naill ai drwy'r gymuned leol, y Cabinet neu gymeradwyaethau mewnol, gan mai 'dim ond peilot' yw'r prosiectau, sydd wedyn yn galluogi pobl i ail-ddychmygu gofod neu le yn y tymor hir.

— Mae'n bwysig cadw llygad bob amser ar botiau cyllido sydd ar y gweill i ganfod llwybrau posibl i gyflawni prosiectau tymor hir ar ôl cynlluniau peilot llwyddiannus.

## Effaith

Mae tîm amlddisgyblaethol o 14 o bobl wedi cael ei lunio dros 5 mlynedd o un swyddog, i ganfod cyfleoedd newydd, gwneud cais am gyllid newydd a mynd â phrosiectau o'r dechrau i'r diwedd.

Mae rhanddeiliaid lleol, partneriaid cymunedol a phrosiectau wedi elwa o gael llais a mewnbwn parhaus drwy eu swyddog prosiect, wrth i berthnasoedd gwaith tymor hir ddatblygu a chryfhau ansawdd prosiectau creu lleoedd.

Mae nifer o brosiectau a pholisïau eraill ar draws yr awdurdod lleol wedi elwa o gyngor neu fewnbwn ffurfiol ac anffurfiol, gan swyddogion arbenigol o'r Tîm Adfywio i gryfhau ansawdd y dyluniad ac i fabwysiadu dull cyfannol.

## Y Camau Nesaf

— Cyflawni prosiectau ac uchelgeisiau hirdymor, sydd wedi cael eu llywio gan brosiectau peilot a'u cyd-gynllunio gyda'r gymuned leol.

— Parhau i feithrin gallu mewnol lle bo angen i gyflawni'r portffolio o brosiectau creu lleoedd.

— Datblygu a chreu prosiectau etifeddiaeth gyda'r gymuned leol a all barhau ar ôl i botiau cyllido penodol ddod i ben.

## Beth gallech chi ei wneud?

— **Dylech gynnwys capasiti mewnol ac arbenigol yn eich ceisiadau am gyllid, yn hytrach na dibynnu ar ymgynghorwyr allanol.**

— **Gwneud cynllun i dreialu syniadau gyda photiau cyllid bach, i lywio buddsoddiad tymor hir mewn lleoedd.**

— **Ymgorffori swyddogion lleol mewn mannau i gyd-ddylunio gyda'r gymuned leol a chreu 'wyneb' o'r sefydliad ar lawr gwlad.**



Parc bach ar y stryd sy'n creu mannau gwyrdd a seddi mewn man parcio, i ailddychmygu sut gallai gofod edrych a theimlo.




Gofod dros dro sy'n cael ei ddefnyddio fel ystafell drefol yn ystod yr wythnos a gofod y gellir ei rentu rhwng dydd Gwener a dydd Sul ar gyfer busnesau lleol, artistiaid, grwpiau cymunedol ac elusennau.

| **Gwybodaeth am y prosiect** | |
|---|---|
| Tîm | Tîm Adfywio amlddisgyblaethol, gan gynnwys Dylunio Trefol, Pensaernïaeth, Treftadaeth, Cynllunio, Celfyddydau a Diwylliant. |
| Partneriaid | Cynghorau Tref, Ymddiriedolaethau Cymunedol, Ardaloedd Gwella Busnes, Landlordiaid Lleol. |
| Cyllid | Awdurdod Cyfun Gorllewin Lloegr, Historic England, Cyngor Celfyddydau Lloegr |
| Cost | £25m o gyllid, gan gynnwys refeniw a chyfalaf ar gyfer dichonoldeb hyd at gyflawni. |
| Amser | Mae'r tîm wedi tyfu o un i bedwar ar ddeg o bobl, 2019 hyd yma. |

Darparwyd yr wybodaeth gan Wendy Maden, Bath & North East Somerset Council.

Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales